Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru South Wales Fire and Rescue Service

Goruchwylydd Ysgrifenyddiaeth

37 AWR YR WYTHNOS

CYFEIRNOD: NU291

GRADD 9

CYFLOG: £32,076 - £33,945

Mae'r swydd wag uchod wedi codi o fewn Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a leolir ym Mharc Busnes Forest View, Llantrisant.

Rydym yn recriwtio person medrus a phrofiadol iawn i weithio o fewn ein Huned Cefnogi Busnes.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd ag ystod o ddyletswyddau, sy'n gymesur â rôl Goruchwylydd yr Ysgrifenyddiaeth.

Bydd angen cael Cliriad Diogelwch Llywodraeth Cymru cyn cychwyn y rôl.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr â:

Chymhwyster ysgrifenyddol cydnabyddedig hyd at RSA 3 neu gymhwyster cyfwerth.
Phrofiad profedig mewn goruchwylio.

Gall y rôl hon gynnwys rhywfaint o deithio achlysurol rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ond nid yw'n hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol â'r hyn a nodir yn y Fanyleb Person.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad cofnod troseddol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gwiriad trwydded yrru a bydd gofyn iddi/iddo ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn gwneir penodiad.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yng ngham y rhestr fer yn derbyn cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweliadau). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd/neu Gyfieithu ar y Pryd.
Dylid cwblhau Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio a ellir ei chyrchu drwy law ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/swyddi-gwag-diweddaraf/

Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk.

Dylai pob ymgeisydd mewnol wneud cais trwy eu porth CORE, gan ddewis “Swyddi Gwag Cyfredol” o'r tab ar y chwith.

Sylwch y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau trwy'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn y cais; Dylech sicrhau eich bod chi’n gwirio pob ffolder negeseuon yn rheolaidd.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 12:00, hanner dydd, ar 16/02/24

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn credu yng ngwir werth cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o’n cymuned i ymgeisio.

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG